



Sir Benfro yn Dysgu

LLAWLYFR I DDYSGWYR

**Dysgu heddiw ar
gyfer yfory gwell**

V13.2 2021



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.sir-benfro.gov.uk/addysg-i-oedolion

Datganiad Cenhadaeth

Mae Sir Benfro yn Dysgu yn anelu at ddarparu ystod o gyfleodd dysgu ansawdd uchel fydd yn ymgysylltu ac yn galluogi pob dysgwr i gasglu gwybodaeth a sgiliau, cynnydd mewn dysgu, i chwarae rôl actif yn eu cymunedau a chyfrannu at les a ffyniant economaidd Sir Benfro yn yr 21ain Ganrif.

Mae'r wybodaeth hon ar gael mewn fformatau eraill megis print mwy bras, Braille ac ar dâp.

Os oes unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall neu os hoffech help i ddarllen y llyfryn hwn, siaradwch â thiwtor eich cwrs neu staff gweinyddol y ganolfan.

Rydym yma i'ch helpu.

Croeso

Croeso i Ddysgu Sir Benfro - Dysgu Oedolion yn y Gymuned.

P'un ai eich bod yn ymuno â ni am y tro cyntaf neu'n dychwelyd i barhau â'ch astudiaethau gyda ni, gobeithio y bydd eleni yn brofiad plererus a buddiol i chi.

Mae'r llawlyfr hwn yn eich cyfeirio at wybodaeth bwysig am ein gwasanaeth ac yn rhoi'r hyn y dylech ei wybod er mwyn cwblhau eich cwrs yn llwyddiannus.

Ein haddewid i chi

Mae Sir Benfro yn Dysgu wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i bob unigolyn.

Byddwn yn ymdrechu i:

- Darparu ystod eang o gyfleoedd dysgu a datblygu er mwyn cwrdd â'ch anghenion - o wella iechyd a lles, adeiladu ar eich sgiliau, ennill cymwysterau neu ddatblygiad gyrfa.
- Darparu mynediad teg i bawb at gyfleoedd dysgu i bob grŵp yn y gymuned.
- Cyflwyno hyfforddiant o ansawdd uchel gan ddefnyddio staff medrus a phrofiadol sydd wedi ymrwymo i'ch helpu i lwyddo.
- Darparu cyfleoedd mewn amgylcheddau diogel, hygyrch a chyfeillgar gan ddefnyddio technolegau modern, ynghyd â darparu amrywiaeth o gyrsiau y gellir eu hastudio ar-lein Rhoi adborth rheolaidd i chi am eich cynnydd, gan ddarparu cynllun dysgu unigol i gofnodi eich cyflawniadau personol.
- Rhoi adborth rheolaidd i chi am eich cynnydd, gan ddarparu cynllun dysgu unigol i gofnodi eich cyflawniadau personol.

- Eich cefnogi ag unrhyw anawsterau y gallech eu cael o ran defnyddio ein gwasanaethau, megis anabledd, cyllid a lles.

Eich addewid i ni

P'un a ydych yn dysgu ar-lein neu mewn canolfan, fel dysgwr Dysgu Sir Benfro, rydym yn disgwyl i chi wneud y canlynol:

- Mynychu'n rheolaidd a bod yn brydlon i'r dosbarth.
- Siarad â ni os oes gennych unrhyw bryderon arbennig neu anghenion dysgu - ni allwn eich helpu oni bai ein bod yn gwybod.
- Cymryd rhan weithredol yn eich dysgu, gan fonitro eich cynnydd gyda'ch tiwtor a rhoi adborth i ni trwy holiaduron diwedd cwrs.
- Ymddwyn mewn modd sy'n sicrhau eich iechyd a diogelwch cyffredinol eich hun ac eraill, gan gymryd sylw arbennig o reolau a rheoliadau diogelwch.
- Parchu hawliau a theimladau eraill, gan hybu ethos Sir Benfro yn Dysgu o gydraddoldeb i bawb.
- Cadw at Bolisi TG Dysgu Sir Benfro ar ddefnydd diogel o'r rhyngwyd.

Gweinyddiaeth



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Sir Benfro
Pembrokeshire

Dysgu Cymraeg Sir Benfro - ar gyfer cofrestru, ffioedd, dosbarthiadau ewch i: www.dysgucymraeg.cymru a dewiswch Sir Benfro fel eich darparwr.

Ar gyfer manylion ffioedd, ad-daliadau a dichonolrwydd ewch i: www.dysgucymraeg.cymru / Manylion cyswllt Dysgu Cymraeg Sir Benfro tudalen 12.

Mae'r llyfryn Sir Benfro yn Dysgu yn rhoi manylion llawn am ein rhaglen, dyddiadau'r tymhorau a ffi oedd.

- **Ffioedd** - ceir cyfraddau ffioedd gwahanol gan ddibynnu ar eich amgylchiadau ariannol. Ewch i'n gwefan neu cysylltwch â'ch canolfan leol am fanylion. Nid yw hyn yn berthnasol i ddysgwyr Cymraeg Sir Benfro.
- **Polisi ad-daliadau** - Dyma bolisi Sir Benfro yn Dysgu ar gyfer ad-dalu ffioedd cyrsiau:
 - Bydd rhaid talu ffi weinyddol o £10 os bydd y cwsmer yn canslo cyn dechrau'r cwrs.
 - Ni fydd ad-daliad wedi dechrau'r cwrs.

Trefn apelio: Mewn amgylchiadau eithriadol bydd modd apelio am ad-daliadau i Gydlynnydd Dysgu Gydol Oes yr Ardal. Codir lleiafswm tâl o £25 am gofrestru a gweinyddu.

Os ydych chi'n ei chael hi'n anodd talu eich ffioedd dysgu, cysylltwch â staff gweinyddol eich canolfan leol er mwyn trafod y sefyllfa. Byddwn yn trin eich ymholiad yn hollol gyfrinachol ac mae'n bosibl y byddwn yn gallu eich helpu chi.

- Mae gan Dysgu Cymraeg Sir Benfro eu polisi ffioedd eu hunain a chronfa arian wrth gefn. Ewch i:
www.dysgucymraeg.cymru/cymorth/cronfa-ariannol
- **Dichonolrwydd** - Gall y ffioedd a gyhoeddir ar gyfer cyrsiau gynyddu os na chyrhaeddir yr isafswm ar gyfer cofrestru bob tymor. Cymhwysir ffi dichonolrwydd ychwanegol os bydd dosbarth heb y niferoedd digonol am barhau. Nid yw hyn yn berthnasol i ddysgwyr Cymraeg Sir Benfro.

Pa wasanaethau ychwanegol a ddarperir gan Sir Benfro yn Dysgu?

- **Gwybodaeth a Chyngor** - Gall staff hyfforddedig Dysgu Sir Benfro eich helpu i ddeall a gwneud dewisiadau am y cyrsiau, yr opsiynau dysgu, y llwybrau cynnydd a'r cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael i chi.
- **Sgiliau Hanfodol** - Mae gwasanaeth Sgiliau Hanfodol Sir Benfro yn Dysgu yn cynnig cefnogaeth/dosbarthiadau mewn darllen, ysgrifennu, mathemateg a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill. Siaradwch â'ch tiwtor, yn gyfrinachol, os oes angen help arnoch.
- **Safonau Iaith Gymraeg** - Mae Cyngor Sir Penfro'n ymlynu at y safonau a amlinellir ym Mesur Iaith Gymraeg (Cymru) 2011, sy'n golygu bod yr iaith Saesneg a'r iaith Gymraeg yn cael eu trin yn gydradd ym myd busnes cyhoeddus a gweinyddiaeth cyfiawnder yng Nghymru, ynghyd â hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg.

Os hoffech gysylltu â'n busnes yn y Gymraeg neu gymryd rhan mewn cwrs a ddarparir yn arbennig drwy'r Gymraeg, os gwelwch yn dda cysylltwch â Chanolfan Dysgu Preseli ar 01437 770180.

- **Cymorth a chefnogaeth benodol** - Gall Sir Benfro yn Dysgu ddarparu cymorth, cyngor ac offer/adnoddau i gefnogi eich dysgu. Siaradwch â'ch tiwtor neu Weinyddwr y Ganolfan yn gyfrinachol.
- **Hygyrchedd y We mewn Canolfannau Dysgu Cymunedol** - Mae mynediad diwifr i'r rhyngrwyd ar gael ym mhob Canolfan. Os hoffech ddefnyddio gliniadur neu ddyfais symudol eich hunan ar eich cwrs, cysylltwch â'r Swyddog Gweinyddol yn eich Canolfan Ddysgu Gymunedol am fanylion os gwelwch yn dda.

- **Sgiliau Hanfodol: Llythrennedd Digidol** - Bydd gwella eich sgiliau llythrennedd digidol nid yn unig yn eich galluogi chi i weithredu'n ddiogel ac yn effeithiol mewn byd digidol ond bydd hefyd yn cynyddu eich dysgu a'ch cyflogadwyedd. Os hoffech wella eich sgiliau digidol, bydd Swyddog Gweinyddol eich Swyddfa Ddysgu Gymunedol yn gallu cynnig cyngor ac arweiniad ynglŷn â'r llwybr gorau i chi.
- **Dysgu ar-lein trwy ein Parth Dysgu** - Mae rhai o'n cyrsiau'n cael eu cyflwyno fel dosbarthiadau ar-lein trwy ein Parth Dysgu sy'n ei gwneud yn haws nag erioed i ddysgu, waeth lle rydych yn byw.
Mae'r Parth Dysgu yn rhoi mynediad i ddysgwyr cofrestredig i ddysgu ac adnoddau ar-lein dan arweiniad tiwtor. Mae'n galluogi cyfuniad o ddysgu wyneb yn wyneb lle mae'r tiwtoriaid yn bresennol yn yr ystafell ddosbarth ar-lein ar gyfer bob sesiwn. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau digidol a darparu cynnwys y cwrs mewn amgylchedd diogel ar-lein.
Ewch i'n gwefan <https://www.sir-benfro.gov.uk/chwilio-am-gwrs> a chwilio am gwrs gan ddefnyddio'r gair 'ar-lein' er mwyn gweld yr opsiynau ar-lein rydyn ni'n eu cynnig.
- Mae **Dysgu Cymraeg Sir Benfro** yn darparu gwersi ar-lein yn defnyddio Zoom.
- **Grwpiau a chymdeithasau** - Mae gan bob Canolfan Dysgu Cymunedol fanylion clybiau, grwpiau a chymdeithasau sy'n cwrdd yn y ganolfan a all gynorthwyo oedolion o bob oed a gallu i gynnal a gwella lles. Gofynnwch i Weinyddwr y Ganolfan am fanylion.

Beth sydd angen i mi ei wybod am iechyd, diogelwch a diogeledd?

Mae pob un o bersonél Sir Benfro yn Dysgu wedi cael ei wirio gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol/ Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac mae pob gweithgaredd/ lleoliad wedi derbyn

asesiad risg. Mae copïau o'r asesiadau risg a gynhaliwyd, gan gynnwys mesurau ataliol COVID-19, ar gael yn ein canolfannau .

- **Diogelu** - Mae Sir Benfro yn Dysgu yn hyrwyddo lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed, ac mae'n ymdrechu i sicrhau bod plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn Sir Benfro yn mwynhau'r iechyd gorau posibl, ac nad ydynt yn dioddef camdriniaeth, erledigaeth ac ecploetiaeth. Mae manylion Polisi Amddiffyn Plant Cyngor Sir Penfro a chanllawiau yn ymwneud â nodi oedolion sy'n agored i niwed, hynny yw, gweithgareddau rheoleiddiedig, ar gael ym mhob canolfan.
- **Cofnodi Damweiniau** - Rhaid rhoi gwybod i'ch tiwtor am bob damwain, waeth pa mor fach neu ddibwys ydyw. Mae pecyn cymorth cyntaf a manylion swyddogion cymorth cyntaf cymwysedig ar gael ym mhob canolfan.
- **Gweithdrefnau Argyfwng** - Sicrhewch eich bod yn ymglyfarwyddo â gweithdrefn gadael mewn argyfwng y ganolfan a'i manau ymgynnull. Os bydd angen cymorth arnoch mewn argyfwng, trafodwch eich Cynllun Personol Gadael mewn Argyfwng â'ch tiwtor.
- **Eiddo personol** - Un o amodau'r gwasanaethau a gynigir yw bod myfyrwyr yn cymryd cyfrifoldeb llawn dros eu heiddo personol. Ni fydd Cyngor Sir Penfro yn gyfrifol am unrhyw golli neu ddifrod i eiddo personol ac argymhellir bod myfyrwyr yn trefnu eu hyswiriant eu hunain cyn i'r cwrs ddechrau.
- **Canslo dosbarth** - Er y gwneir pob ymdrech i sicrhau bod dosbarthiadau yn cael eu cynnal yn rheolaidd, mewn rhai achosion gall fod yn angenrheidiol i ni ganslo eich dosbarth. Mewn amodau tywydd eithafol cysylltwch â'r ganolfan i gadarnhau bod y dosbarth yn cael ei gynnal. Os yw canslo dosbarth yn angenrheidiol oherwydd salwch tiwtor, gwneir pob ymdrech i gysylltu â chi cyn yr amser dechrau a bennwyd. Sicrhewch eich bod yn rhoi rhif cyswllt wrth

gofrestru a'ch bod yn rhoi gwybod i'r ganolfan am unrhyw newidiadau.

Iechyd a Lles - Mae iechyd a lles ein holl ddysgwyr a staff yn bwysig iawn i ni. Cadwch at BOB mesur ataliol COVID-19 a dilynwch y gofynion, yr arweiniad a'r cyngor sy'n cael eu harddangos yn y canolfannau. Os ydych yn teimlo'n sâl ac yn dioddef o symptomau sy'n gysylltiedig â COVID-19, gofynnwn yn garedig i chi beidio â mynd i mewn i'n hadeiladau. Mae Dysgu Sir Benfro yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid ledled Sir Benfro i hyrwyddo iechyd a lles. Os oes angen cymorth arnoch, efallai y byddwn yn gallu eich cyfeirio at sefydliadau eraill a all helpu.

Sut ydw i'n cwblhau cwrs yn llwyddiannus?

- Mynychwch yn rheolaidd ac yn brydlon. Rhowch wybod i ni os byddwch yn penderfynu gadael cwrs neu os na fyddwch yn gallu mynychu am unrhyw reswm. Byddwch yn cael eich tynnu allan o'r cwrs yn sgil **tri absenoldeb heb ganiatâd**.
- Siaradwch â'ch tiwtor am unrhyw anghenion arbennig neu anawsterau.
- Cymerwch ran weithredol yn eich dysgu, gan helpu eich tiwtor i gofnodi eich cynnydd a'ch cyflawniadau a rhoi adborth i ni trwy werthusiad ar ddiwedd y cwrs.
- Asesir dysgu mewn gwahanol ffyrdd.
 - Pan rydych chi'n cychwyn eich dysgu bydd gofyn i chi gwblhau Cynllun Dysgu Unigol (CDI). Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i chi nodi eich targedau a monitro eich cynnydd.
 - Bydd tiwtor eich cwrs yn ymdrin â gwybodaeth am weithdrefnau asesu ar gyfer cyrsiau cymhwyso. Rhowch

wybod i diwtor eich cwrs os oes gennych unrhyw anghenion arbennig.

- Bydd eich tiwtor yn cynnig adborth rheolaidd ar eich cynnydd. Bydd hwn yn gyfle i chi godi unrhyw anawsterau neu broblemau y gall fod gennych â'ch cwrs.

Addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDF)

Mae Sir Benfro yn Dysgu yn hybu diwylliant o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

Rydym yn eich annog yn ddysgwr i:

- ofalu am eich hunan, gofalu am eraill a gofalu am eich amgylchedd
 - diffodd goleuadau pan na ddefnyddir ystafelloedd
 - argraffu pan fo wir angen yn unig
 - defnyddio cyfleusterau ailgylchu'r ganolfan pan fo'n bosibl
 - rhannu trafndiaeth i ddsbarthiadau, ac oddi yno, pan fo'n bosibl
- sylweddoli bod gennych rôl yn y gymuned dysgu oedolion, y gymuned leol a'r gymuned fyd-eang
- darganfod, beth bynnag rydych yn ei astudio, bod cysylltiadau â phynciau, testunau a materion eraill, a hefyd â "darlun mawr" y byd ehangach
- magu sgiliau ac ymchwilio i faterion mewn ffyrdd a fydd yn eich galluogi i benderfynu sut i ymddwyn

Canmol, cwyno ac awgrymiadau

- Mae Sir Benfro yn Dysgu yn croesawu adborth. Mae arnom angen gwybod yr hyn rydym yn ei wneud yn dda, yr hyn y gallwn ei wneud yn well a'r hyn y gallwn wella arno. Rydym yn cymryd pob sylw, awgrym a chanmoliaeth o ddifrif, er mwyn ein helpu i wella ein gwasanaeth yn gyson.
- Mae Sir Benfro yn Dysgu yn cadw at bolisi Cyngor Sir Penfro. Dylid cysylltu i ddechrau â thiwtor eich cwrs neu weinyddwr y ganolfan er mwyn canmol, cwyno neu i gynnig awgrymiadau. Gobeithir y bydd unrhyw ofidion y gallai fod gennych yn cael eu datrys yn anffurfiol.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth mewn Canolfannau Dysgu Cymunedol neu ar wefan CSP.

Cynnwys Dysgwyr

Mae Sir Benfro yn Dysgu yn ymdrechu i hoelio sylw ar y dysgwyr ymhob un o'i weithgareddau. Rydym yn croesawu eich cyfranogiad i'n helpu i wella ein gwasanaeth trwy werthusiadau, awgrymiadau, fforymau a phwyllgorau. Pan fyddwch yn cofrestru ar gwrs gofynnir i chi os hoffech gymryd rhan yn ein Fforwm Ddysgwyr. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i chi roi adborth a chyfrannu at ddatblygiad ein gwasanaeth.

Os byddwch yn colli'r cyfle am ryw reswm, ond y byddech yn hoffi cyfrannu at ddatblygu'r gwasanaeth, siaradwch â'r Cydlynnydd Dysgu Gydol Oes.

Gweithdrefn ar gyfer apeliadau asesu

Gweithdrefn sy'n eich galluogi i herio canlyniad asesu yw apêl.

- Dylech drafod y canlyniad â'r tiwtor dan sylw yn gyntaf.

- Os na fyddwch yn fodlon â'r ymateb a roddir, dylech apelio **yn ysgrifenedig** i Gydlynnydd y Ganolfan ymhen 7 diwrnod ar ôl cael y canlyniad asesu.
- Bydd y swyddog ymchwilio yn ymchwilio i'r weithdrefn a ddilynwyd ac yn rhoi ymateb ysgrifenedig ymhen 14 diwrnod. Ni fydd hyn yn cynnwys adolygiad o waith yr ymgeisydd.
- Cedwir pob dogfennaeth berthnasol gan y sswyddog ymchwilio yn ystod cyfnod yr apêl.
- Os na fyddwn yn gallu datrys eich ymholiad, byddwch yn cael eich cyfeirio at bolisi Apêl y Corff Dyfarnu perthnasol e.e. Agored Cymru, BCS, CBAC,.... Byddwch yn derbyn y newyddion diweddaraf am gynnydd eich apêl bob cam o'r ffordd.

Hysbysiadau preifatrwydd a diogelu data

Sir Benfro yn Dysgu

Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru

Defnyddio eich gwybodaeth bersonol: Caiff y wybodaeth hon a ddarparwyd gennych ei dal ar gronfa ddata Sir Benfro yn Dysgu a'i defnyddio yn y ffyrdd canlynol:

- 1) At ddibenion gweinyddol a dysgu ar-lein sy'n ymwneud â Dysgu Oedolion a Dysgu yn y Gymuned.
- 2) At ddibenion gweinyddol ar gyfer Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru Llywodraeth Cymru (LLWR).
- 3) Er mwyn cynllunio, monitro ac archwilio gweithgarwch dysgu.

4) Cynhyrchu ystadegau yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018.

Dim ond i'r graddau y mae'n angenrheidiol i arfer yr awdurdod swyddogol a freinir yn y rheolydd y caiff eich data personol eu prosesu.

Os ydych yn astudio tuag at gymhwyster neu gredyd(au), bydd angen anfon eich manylion i'r corff dyfarnu at ddibenion achredu.

Bydd hysbysiadau ynglŷn â phreifatrwydd yn cael eu harddangos ar hysbysiadau ar waliau ystafelloedd hyfforddiant, byddant ar gael gan Gydgylltwyr Dysgu Gydol Oes, staff gweinyddol Canolfannau Dysgu Cymunedol a hefyd drwy ddolenni gwefan.

www.sir-benfro.gov.uk/gwybodaeth-i-dysgwyr

I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut y delir eich gwybodaeth a'ch hawliau i weld gwybodaeth amdanoch a ddelir gennym, gofynnwch i'ch tiwtor neu cysylltwch â Chydgylltydd Dysgu Gydol Oes yr ardal.

Cyfathrebu digidol: Gallwch ddewis peidio â bod yn rhan o'r trefniant hwn ar unrhyw adeg, drwy gysylltu â staff yn y Ganolfan Dysgu Cymunedol sy'n gweinyddu eich cwrs neu drwy e-bostio: learn@pembrokeshire.gov.uk



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Sir Benfro
Pembrokeshire

Dysgu Cymraeg Sir Benfro

Y Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg

Cyfeiriwch at:

<https://dysgucymraeg.cymru/hysbysiad-preifatrwydd>

Cysylltiadau Sir Benfro yn Dysgu

**Canolfan Ddysgu Gymunedol
Abergwaun**

**(Ardal Abergwaun, Crymych,
Trefdraeth a Tyddewi)**

Lleolir Yng Nghanolfan Ddysgu
Gymunedol,

Ysgol Bro Gwaun

ABERGWAUN

Sir Benfro SA65 9DT

☎ 01437 770140 📠 07468 743867

Canolfannau Dysgu Cymunedol

Canolbarth Sir Benfro

**(Ardal Hwlffordd,
Aberdaugleddau a Neyland)**

Lleolir yn Canolfan Ddysgu

Gymunedol Hwlffordd,

Archifdy Sir Benfro

Prendergast, HWLFFORDD

Sir Benfro SA61 2PE

☎ 01437 770150 / 01437 770165

📠 07557 191452

Canolfan Ddysgu Gymunedol

Doc Penfro

Sgwâr Albion,

DOC PENFRO

Sir Benfro SA72 6XF

☎ 01437 770170

Canolfan Ddysgu Gymunedol

Dinbych-y-pysgod

Rhodfa Greenhill

DINBYCH-Y-PYSGOD

Sir Benfro SA70 7LH

☎ 01437 770190

Canolfan Gymunedol Bloomfield

Tŷ Bloomfield

Heol Redstone

ARBERTH

Sir Benfro SA67 7ES

☎ 01437 770136 / 01834 860293

Dysgu Cymraeg Sir Benfro

Canolfan Ddysgu Gymunedol

y Preseli

Ysgol y Preseli, CRYMYCH

Sir Benfro SA41 3QH

☎ 01437 770180

Swyddfa Gwasanaethau Canolog

Tŷ Bloomfield , Heol Redstone, ARBERTH, Sir Benfro SA67 7ES

☎ 01437 770130 📠 07500 127146

✉ learn@pembrokeshire.gov.uk

Cysylltiadau arbennig:

Sgiliau Hanfodol:

0808 100 3302

ESOL:

0808 100 3302

Cymraeg:

01437 770180

Sbardun:

07500 918050

www.pembrokeshire.gov.uk/addysg-i-oedolion

www.facebook.com/LearningPembrokeshire

Cysylltiadau defnyddiol eraill:

Gyrfa Cymru Gorllewin:

Gwybodaeth a chyngor gyrfaol
Pob mater arall

0800 0284844
0300 1233833

Gwybodaeth a chyngor gyrfaoedd

0800 100 900
www.careerswales.com

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro

01437 769422
www.pavs.org.uk

Coleg Sir Benfro

0800 9776788
www.pembrokeshire.ac.uk

Cyngor Sir Penfro

01437 764551
www.pembrokeshire.gov.uk

DEWIS

www.dewis.cymru

Gwybodaeth am Ganolfannau

Darperir gwybodaeth benodol am **ganolfannau**, megis y cyfleusterau sydd ar gael, manylion cyswllt a gwybodaeth iechyd a diogelwch gan diwtor eich cwrs / gweinyddwr y ganolfan.

Gwybodaeth am Gyrsiau

Darperir gwybodaeth benodol am **gyrsiau**, megis trefniant cyrsiau, asesu ac iechyd a diogelwch gan diwtor eich cwrs.

